❖ **Rhyfedd Wyrth**

Darllen Effesiaid 2:14–16

Nid oes raid i'r 'hen greadigaeth' deyrnasu, ac nid yw'r bywyd a gyplysir â hi'n anorfod.

Un o'r hanesion rhyfeddaf am y Rhyfel Byd Cyntaf yw'r hyn a ddigwyddodd i'r ddwy fyddin a oedd yn gwrthwynebu'i gilydd. Ar y noson cyn y Nadolig trawsnewidiwyd y sefyllfa'n llwyr. Daeth sŵn canu o rengoedd un o'r byddinoedd ac ymatebodd y fyddin arall mewn cân. Cododd y dynion o'r ffosydd i gofleidio'i gilydd. Bu'n achos syndod a rhyfeddod i bawb fel ei gilydd. Buont yn llygad-dystion i'r wyrth a drodd y tywyllwch yn oleuni, yn filoedd o oleuadau'n llenwi'r awyr nes bod yr olygfa'n debycach i wledd y Nadolig nag i faes y gwaed. Dechreuodd un o'r byddinoedd ganu 'Cristnogion deffrowch', a deffrodd pawb i weld ei gilydd nid fel gelynion mwyach, ond fel brodyr.

Digwyddodd y wyrth mewn ffordd a oedd mor naturiol â chodiad haul y bore. Rhyfel a gelyniaeth oedd yn annaturiol, nid brawdgarwch a chariad.

Gweddi:

Diolchwn nad oes unrhyw sefyllfa mor ddyrys a diobaith na all dy ras gyffwrdd â hi a'i thrawsnewid er daioni. Dangos i wledydd daear ffordd y cymod, a datoda bob canolfur rhyngddynt sydd yn achos cas a chynnen:

Rhag tywallt gwaed dy blant ar erwau prudd,
rhag rhwygo eu cartrefi, nos a dydd,
rhag diffodd gobaith a rhag difa ffydd,
O arbed ni. ***Llywelyn C. Huws***